Safon UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Cyflwyniad

Mae cymwysterau UG a Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yn cael eu diwygio yng Nghymru i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2017. Caiff y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth ei ddatblygu gan CBAC a dyma fydd yr unig fersiwn o'r cymhwyster sydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru, gan nad oes unrhyw fwrdd arholi arall wedi penderfynu datblygu'r cymhwyster hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, rydym yn ceisio barn ar ein cynigion o ran cynnwys, strwythur ac asesiad y cymwysterau diwygiedig.

Rydym wedi llunio'r cynigion yn yr holiadur hwn mewn ymgynghoriad â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys CBAC, ymarferwyr mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach, prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu meini prawf ac amodau cymeradwyo ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth. Caiff y fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer cymwysterau diwygiedig UG a Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth eu llunio a'u cymeradwyo ar sail y meini prawf cymeradwyo a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.

Safon UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Nodau a chynnwys pwnc

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr wedi penderfynu cyflwyno cymhwyster Safon Uwch mewn Gwleidyddiaeth yn lle'r cymhwyster Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth. Er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r cymhwyster Safon Uwch arfaethedig mewn Gwleidyddiaeth yn Lloegr â'r cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru, mae Cymwysterau Cymru wedi adolygu nodau a chynnwys pwnc y ddau gymhwyster. Ceir dolenni i feini prawf pwnc y cymhwyster Safon Uwch arfaethedig mewn Gwleidyddiaeth yn Lloegr a'r cymhwyster Safon Uwch cyfredol mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth isod.

Meini prawf pwnc terfynol ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Gwleidyddiaeth a gynigiwyd gan yr Adran Addysg:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/504014/Politics_A_level_content.pdf

Meini prawf cyfredol ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a ddiwygiwyd ddiwethaf yn 2011:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371168/11-10-18-gce-government-politics.pdf

Nodau ac amcanion dysgu pwnc

Mae'r nodau arfaethedig yn seiliedig ar elfennau o'r meini prawf pwnc cyfredol a chynnwys pwnc y cymhwyster Gwleidyddiaeth newydd yn Lloegr. Cynigiwn y nodau pwnc a'r amcanion dysgu canlynol ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru:

Rhaid i'r cymhwyster Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth hyddysg o strwythurau a materion gwleidyddol cyfoes, yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig (DU) ac yn rhyngwladol;
- meithrin ymwybyddiaeth feirniadol o natur newidiol gwleidyddiaeth a'r cydberthnasau rhwng syniadau, sefydliadau a phrosesau gwleidyddol;
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth hyddysg o'r dylanwadau a'r buddiannau sy'n cael effaith ar benderfyniadau ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth;
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth hyddysg o hawliau a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau;
- meithrin y gallu i ddadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth wleidyddol mewn ffordd feirniadol er mwyn dadlau a dyfarnu;
- ymddiddori mewn gwleidyddiaeth gyfoes ac ymgysylltu â hi.

C1: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Safon UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Cynnwys pwnc

Cynigiwn y dylai'r cymhwyster Safon Uwch newydd mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru fod yn seiliedig ar y meini prawf pwnc cyfredol. At hynny, cynigiwn fod yn rhaid i'r cymhwyster;

- ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio themâu: Llywodraeth yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd;

  - Cyfranogiad gwleidyddol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd;
  - Syniadau gwleidyddol gan gynnwys: rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth, sosialaeth, comiwnyddiaeth, cenedlaetholdeb, ffeministiaeth ac amgylcheddaeth;
  - Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA;
  - Gwleidyddiaeth fyd-eang a chysylltiadau rhyngwladol.

- a deall y rhyng-gydberthnasau rhwng y gwahanol feysydd astudio a meithrin ymwybyddiaeth o'u harwyddocâd;

C2: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Amcanion asesu

Mae amcanion asesu yn pennu sut y dylai cynnwys pwnc gael ei asesu.

Yr Amcanion Asesu ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch cyfredol mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yw:

Amcan	Gofynion	Pwysoliad
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydliadau, prosesau, cysyniadau gwleidyddol, damcaniaethau a dadleuon perthnasol	40-50%
AA2	Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, dadleuon ac esboniadau gwleidyddol, a nodi nodweddion cyfatebol, cysylltiadau, tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng agweddau ar y systemau gwleidyddol a astudiwyd	30-40%
AA3	Llunio a chyfathrebu dadleuon cydlynol gan ddefnyddio amrediad o eirfa wleidyddol briodol.	10-20%

Cynigir yr amcanion asesu canlynol ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Gwleidyddiaeth yn Lloegr:

Amcan	Gofynion	Safon UG	Safon Uwch
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydliadau, prosesau, cysyniadau gwleidyddol, damcaniaethau a materion perthnasol	50%	40%
AA2	Deall a dehongli gwybodaeth wleidyddol er mwyn creu a chyfleu dadleuon ac esboniadau	20%	20%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso'r meysydd gwleidyddol a astudiwyd er mwyn nodi ffactorau cyffelyb, cysylltiadau a gwahaniaethau, sy'n arwain at gasgliadau rhesymegol.	30%	40%

Cynigiwn ddefnyddio'r amcanion asesu ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Gwleidyddiaeth yn Lloegr ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru, ond gan eu haddasu i gynnwys 'llywodraeth', lle bo'n briodol.

Caiff y gwahaniaeth rhwng strwythurau'r cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru a Lloegr (Datgysylltu'r cymwysterau UG a Safon Uwch yn Lloegr) eu hadlewyrchu ym mhwysoliadau'r amcanion asesu er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r cymwysterau UG a Safon Uwch yng Nghymru a Lloegr. O ystyried hyn, cynigiwn yr amcanion asesu canlynol a'r priod bwysoliadau ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru:

Amcan	Gofynion	Safon UG	Safon A2	Safon Uwch lawn
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydliadau, prosesau, cysyniadau gwleidyddol, damcaniaethau a materion perthnasol	49%	34%	40%
AA2	Deall a dehongli gwybodaeth wleidyddol er mwyn creu a chyfleu dadleuon ac esboniadau	20%	20%	20%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso'r meysydd o ran llywodraeth a gwleidyddiaeth a astudiwyd er mwyn nodi ffactorau cyffelyb, cysylltiadau a gwahaniaethau, sy'n arwain at gasgliadau rhesymegol.	31%	46%	40%

C3: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod pwysoliadau arfaethedig yr amcanion asesu yn briodol o ran y cymhwyster Safon UG a Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mewn perthynas â chymwysterau diwygiedig yng Nghymru, dim ond os mai hwn yw'r asesiad mwyaf addas, er enghraifft i gynnal astudiaeth maes neu berfformiad cerddorol, y defnyddir asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Felly, dim ond pan na all arholiadau ysgrifenedig ddarparu asesiad dilys o sgiliau neu wybodaeth benodol y defnyddir asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Ar hyn o bryd, caiff y cymhwyster Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig. Cynigiwn y dylai'r cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yng Nghymru gael ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig.

C4: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cymhwyster Safon Uwch mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth gael ei asesu'n llawn drwy arholiadau ysgrifenedig?

- ○ Cytuno'n gryf
- ○ Cytuno
- ○ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ○ Anghytuno
- ○ Anghytuno'n gryf
- ○ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C5: Yn eich barn chi, pa gymorth ac adnoddau y gallai fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod yn gwbl barod i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig?

Rhowch sylwadau

Effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchodedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C6: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

Safon UG a Safon Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Manylion personol

Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon

Os ydych yn cyflenwi manylion cyswllt, efallai y byddwn yn cysylltu â chi am eglurhad am eich atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru (CC) yn rhannu'r manylion hyn, neu fanylion am eich atebion gydag unrhyw drydydd.

Manylion Personol

Enw

Sefydliad

Cyfeiriad ebost

A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran eich sefydliad?

- ◯ Unigolyn
- ◯ Sefydliad

Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch 'ddim yn berthnasol' os ydych yn ymateb fel unigolyn

- ◯ Ysgol
- ◯ Coleg
- ◯ Prifysgol
- ◯ Corff Dyfarnu Cymhwysterau
- ◯ Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, DU neu'r UE)
- ◯ Ddim yn perthnasol
- ◯ Arall

A ydych yn: (dewiswch fel sy'n briodol)

- [ ] Athro
- [ ] Darlithydd Coleg
- [ ] Darlithydd y Brifysgol
- [ ] Myfyrwyr / Ddisgybl
- [ ] Rhiant
- [ ] Arall